# CYLCH AUR ADDYSG FENTER

Prifysgol Bangor University

Swansea University Prifysgol Abertawe

# BETH, SUT A PHAM

Cyfuno llenyddiaeth allweddol a chyd-destun ehangach Addysg Fenter a gynhyrchwyd ar y cyd gan Dr Beth Edwards (Prifysgol Bangor) a Kelly Jordan (Prifysgol Abertawe).

# RHAGARWEINIAD

**Mae meithrin cysyniad damcaniaethol yn defnyddio'r elfennau pam, beth, sut a phwy (Whetten, 1989). Cyfeiriodd cyflwyniad Sinek (2009) Ted.com at hwn fel 'Y Cylch Euraid'.**

Gan dynnu ar ein profiadau ein hunain o weithio mewn addysg uwch, rydym ni wedi sylwi bod llawer o staff yn brin o amser ac yn wynebu pwysau a blaenoriaethau cynyddol. Felly, mae'r adnodd cydweithredol hwn yn casglu, cywain a threfnu toreth o lenyddiaeth a gwybodaeth i gyfoethogi a dilysu addysg fenter.

Mae'r adnodd hwn yn dod â diffiniadau, dealltwriaeth a chyfleoedd allweddol ynghyd gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r gwerth y gall ymgorffori menter ac entrepreneuriaeth ei ychwanegu nid yn unig at eich maes addysg, profiad myfyrwyr ac ymchwil, ond hefyd y cyfraniad y gall ei ychwanegu at eich datblygiad proffesiynol eich hun.

Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar le addysg wrth ddatblygu menter ac entrepreneuriaeth ymhlith dysgwyr, er y gellir defnyddio terminoleg yn gyfnewidiol (darperir diffiniadau o iaith ar dudalen 7)

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad** | **2–3** |
| **Beth: Y Darlun Mawr** | **4–11** |
| **Pam: Cyfleoedd ac Effaith** | **12–13** |
| **Sut: Adnoddau a chefnogaeth** | **14–17** |
| **Ble Nesaf: Sefydliadau** | **18–21** |
| **Rhannu'r arferion gorau Astudiaethau achos ac Enghreifftiau** | **22–23** |
| **Casgliad** | **24–25** |
| **Cyfeiriadau** | **26** |

## Fel crynodeb, dyma drosolwg o'n swyddogaethau presennol:



### Dr Beth Edwards FEEUK

Beth Edwards yw'r Cydlynydd Datblygu Addysg Fenter, ac mae hi'n canolbwyntio'n bennaf ar weithio gyda staff academaidd i ymgorffori sgiliau, gweithgareddau a chymwyseddau menter yn y cwricwlwm. Yn rhan o'r swydd hon, mae Beth yn cyfrannu at weithgareddau ymchwil, yn datblygu adnoddau staff, ac yn cyflwyno sesiynau diddorol i fyfyrwyr.

Mae Beth yn gweithio o fewn y tîm Byddwch Fentrus ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n darparu cyngor busnes a chymorth cychwyn busnes. Maent yn rhan o'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Ar ôl dechrau yn y swydd yn 2022, mae Beth yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon i sicrhau bod ymyriadau'n seiliedig ar yr arferion gorau.

Cyn y swydd hon, cwblhaodd Beth PhD a gwneud profiad gwaith mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys fel ymgynghorydd llawrydd ar gyfer projectau ledled y DU ac o fewn Tîm Cefnogi Graddedigion Prifysgol Bangor.



### Kelly Jordan Gymrodoriaeth yr AAU

Mae'r Uwch Swyddog Entrepreneuriaeth, Kelly Jordan, wedi bod yn gweithio ym maes addysg fenter ac entrepreneuriaeth ers 2016. Kelly sy'n gyrru'r Tîm Menter Myfyrwyr canolog, sydd wedi'i leoli yn adran Gwasanaethau Ymchwil, Ymgysylltu ac Arloesi Prifysgol Abertawe. Mae'r tîm yn gweithio ar draws y ddau gampws ac yn y rhanbarth i gyfoethogi'r cwricwlwm a chefnogi gydag ymgorffori cymwyseddau entrepreneuriaeth. Y nod yw darparu cyfleoedd i fyfyrwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol fel y gallant ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd ganddynt i ymateb i heriau a sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae gan y Tîm Menter Myfyrwyr amryw o wasanaethau cymorth busnes pwrpasol ar gael i gefnogi myfyrwyr, ôl-raddedigion, graddedigion ac ymchwilwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth yn y fasnach waith, gan gychwyn a thyfu eu busnesau eu hunain. Mae menter ac arloesedd wrth galon Prifysgol Abertawe, gan aros yn driw i uchelgeisiau ei sylfaenwyr ym 1920. Caiff ei chydnabod yn genedlaethol fel Prifysgol Entrepreneuraidd, a chyrhaeddodd restr fer Gwobrau Addysg Uwch y Times ar gyfer prifysgol entrepreneuraidd ragorol y flwyddyn yn 2021 a 2023.

Gyda diolchiadau arbennig i:

**Dr Rebecca Jones (Prifysgol Bangor) am adolygu'r ddogfen hon cyn ei chyhoeddi.**
**Yr Athro Emeritws Andy Penaluna am roi adborth gwerthfawr a dyfyniad cefnogol.**
**Dr Emily Beaumont am ddarparu dyfyniad ategol.**

Cyhoeddedig Hydref 2024

# BETH:
# Y DARLUN MAWR

**Nod Addysg Fenter mewn Addysg Uwch yw cynhyrchu graddedigion sydd â'r ymwybyddiaeth, y meddylfryd a'r gallu i gynhyrchu syniadau gwreiddiol mewn ymateb i anghenion, cyfleoedd a diffygion a nodwyd, a'r gallu i weithredu arnynt, hyd yn oed os yw amgylchiadau'n newid ac yn amwys; yn gryno, bod â syniad a'i wireddu.**

I ymhelaethu ar hyn, rydym yn defnyddio dau adnodd allweddol i helpu egluro'r iaith. Mae'r cyntaf, sef cyfres o dri fideo a ddatblygwyd gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ac Enterprise Educators UK yn dadansoddi tri maes pwysig:


- **Beth yw Addysg Fenter?**
  **Beth yw Addysg Fenter?**
  ***www.youtube.com/watch?v=jxzupl_fyS0&list=PLBCg761xnlfYT29S5-9KiiWBc5PQCMisw&index=1***
- **Arferion, priodoleddau a chymwyseddau menter**
  ***www.youtube.com/watch?v=wgd_MWwAats&list=PLBCg761xnlfYT29S5-9KiiWBc5PQCMisw&index=2***
- **Sut i feithrin meddylfryd mwy entrepreneuraidd**
  ***www.youtube.com/watch?v=kQcJEFPbabs&list=PLBCg761xnlfYT29S5-9KiiWBc5PQCMisw&index=3***

Yr ail adnodd yw'r diagram ar y dde, a briodolir i Andy Penaluna a Ruth Burchell yn Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Mae'r diagram hwn yn defnyddio'r diffiniadau a ddarparwyd gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd mewn diwyg gweledol sy'n dangos y berthynas rhwng iaith wahanol.




> *Mae Menter wedi symud o bwyslais ysgol fusnes ar gychwyn busnes i alw amlddisgyblaethol cyffredinol i ddatblygu hyfedredd dysgwyr yn ymwneud â gwella creadigrwydd ac arloesedd. Fel y dangoswyd gan dystiolaeth yn y Cenhedloedd Unedig, mae hyn yn gwella galluoedd sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, lles cymdeithasol a datblygiad economaidd. Wrth i ddatblygiadau technolegol effeithio ar ein bywydau bob dydd, ni fu'r gallu i feddwl mewn modd hyblyg ac ymaddasol erioed yn bwysicach. Ar ben hynny, mae gweld a gweithredu ar gyd-destunau a safbwyntiau pobl eraill yn elfen ganolog o lwyddiant. Felly, beth ydych chi'n ei wneud yn barod? Beth allwch chi ei wneud i'w wella, a ble allwch chi fynd nesaf? Yn y tudalennau canlynol cewch nid yn unig atebion, ond byddwch hefyd yn deall y rhesymeg ynghylch pam y gofynnir y cwestiynau hyn.*

***Yr Athro Emeritws Andy Penaluna***
***FRSA FISBE FIOEE FEEUK PFHEA PhD Cert Ed.***




Ffigur 1: Darganfod y berthynas rhwng menter a chyflogadwyedd (credyd: Yr Academi Addysg Uwch).

**Mae perthynas rhwng menter a chyflogadwyedd. Felly, bydd ymgorfforі mentergarwch yn gwella rhagolygon gyrfa myfyrwyr, gan gael effaith gadarnhaol ar enw da'r Brifysgol o ran Canlyniadau Graddedigion a safleoedd Cyrsiau a Phrifysgolion mewn tablau cynghrair.**




**Cynrychioliad diagramatig o ddiffiniadau a mapio asesiadau – yn seiliedig ar Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (2018)**

Yn y diagram hwn, priodolir terminoleg gan ddiffiniadau Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA, 2018)

*Ymddiriedir yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gyda 'monitro a chynghori ar safonau ac ansawdd mewn addysg uwch yn y DU'. Mae'r Asiantaeth yn darparu canllawiau clir ar gyfer Cyflogadwyedd, Menter ac Entrepreneuriaeth sy'n sail i waith Addysgwyr Menter ledled y Deyrnas Unedig (mabwysiedir dull wedi'i deilwra ar gyfer pob un o bedair gwlad y DU).*

***Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am osod safonau ac ansawdd academaidd addysg uwch yn y DU.***

## Mentergarwch

Mentergarwch yw creu a chymhwyso syniadau, y'u gosodir mewn sefyllfaoedd ymarferol yn ystod project neu weithgaredd. Mae hwn yn gysyniad cyffredinol y gellir ei gymhwyso ym mhob maes addysg a bywyd proffesiynol. Mae'n cyfuno creadigrwydd, gwreiddioldeb, menter, cynhyrchu syniadau, meddylfryd dylunio, hyblygrwydd a bod yn ymatebol wrth nodi problemau, datrys problemau, arloesi, mynegiant, cyfathrebu a gweithredu ymarferol'.

## Addysg Fenter

Addysg Fenter yw'r broses o ddatblygu myfyrwyr mewn modd sy'n rhoi mwy o allu iddynt feithrin y syniadau, yr arferion, y priodoleddau a'r cymwyseddau i'w gwireddu. Mae'n ymestyn y tu hwnt i gaffael gwybodaeth i ystod eang o arferion, priodoleddau a chymwyseddau emosiynol, deallusol, cymdeithasol, diwylliannol ac ymarferol, ac mae'n briodol i bob myfyriwr. Mae'r rhain i gyd yn ffactorau sylfaenol a all wella rhagolygon cyflogadwyedd yn ogystal â'u datblygu ymhellach drwy Addysg Entrepreneuriaeth.

## Enterprise Educator

Defnyddir Enterprise Educator yn yr adroddiad hwn i adlewyrchu gweithiwr proffesiynol mewn lleoliad addysg sy'n darparu dysgu neu fath arall o addysg sy'n datblygu, yn cefnogi neu'n asesu menter neu entrepreneuriaeth. Gall hyn fod o fewn y cwricwlwm a thrwy weithgareddau allgyrsiol. Gall ffynonellau eraill gyfeirio at addysgwyr entrepreneuriaeth.



## Swyddogaeth, priodoleddau a thasgau addysgwyr Menter ac Entrepreneuriaeth

Efallai nad ydych yn ystyried eich hun yn addysgwr menter, neu hyd yn oed yn rhywun sydd â'r gallu i uniaethu â hyn. Fodd bynnag, trwy archwilio Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol SFEDI ar gyfer Addysgwyr Menter (2016, a ddyfynnir yn yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd 2018), ceisiwn ymbellhau oddi wrth iaith arbenigol. Rhennir hwn yn ddwy adran; swyddogaeth yr addysgwr menter a phriodoleddau'r addysgwr menter.

## Swyddogaeth yr addysgwr menter

| Safon a ddyfynnwyd (SFEDI, 2016) | Dehongliad hawdd ei ddarllen |
|---|---|
| Cynllunio a chyflwyno cwricwla Menter ac Entrepreneuriaeth effeithiol. | Cynllunio a chyflwyno amrywiaeth o weithgareddau, sgyrsiau a digwyddiadau sy'n darparu ystod o gyfleoedd a ffyrdd o ddefnyddio sgiliau entrepreneuraidd. |
| Meithrin perthnasoedd cydweithredol gyda myfyrwyr, addysgwyr a rhanddeiliaid eraill. | Cynnwys pobl eraill i ddefnyddio'u cryfderau, gan gynnwys wrth gyflwyno cynnwys cwricwla. Cydweithio â phobl eraill i drefnu a chyflwyno digwyddiadau, ond hefyd ceisio barn ac arweiniad gan randdeiliaid eraill. |
| Ysgogi ac ysbrydoli myfyrwyr i ddatblygu priodoleddau a chymwyseddau ymddygiad mentrus ac entrepreneuraidd. | Defnyddio gweithgareddau a thasgau ymgorfforedig sy'n datblygu sgiliau mewn ffyrdd dilys, yn hytrach nag addysgu cysyniadau. Caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio eu creadigrwydd a'u syniadau eu hunain, trwy osgoi gweithgareddau rhy gaeth. |
| Myfyrio ar ei ymarfer ei hun fel addysgwr entrepreneuraidd. | Fel unrhyw addysgwr, mae myfyrio yn bwysig (beth aeth yn dda, beth ellid ei wella, beth fyddech chi'n wahanol y tro nesaf ac ati). Hefyd, pa wybodaeth hoffech chi ei datblygu? Pa randdeiliaid wnaethoch chi ymgysylltu â nhw, a pham? |



# Swyddogaeth yr addysgwr menter (QAA, 2018, t12)

## Arweinyddiaeth gynhwysol

Arweinyddiaeth gynhwysol sy'n annog ymddygiad mentrus ac entrepreneuraidd ymhlith myfyrwyr a chydweithwyr - trwy greu a siapio amgylcheddau dysgu priodol.

## Arloesi

Arloesi yn eu hagwedd at addysgu ac yn barod i nodi ac arbrofi gyda gwahanol fathau o addysgeg, gweithgareddau, tasgau dysgu ac asesiadau i gymell ac ysbrydoli myfyrwyr, gan gynnwys archwilio gwahanol gyd-destunau ar gyfer eu haddysgu a gwella eu datblygiad personol i lywio a gwella eu hymarfer addysgu.

## Yn fentrus

Yn fentrus yn eu hagwedd at fanteisio ar gyfleoedd newydd i wella profiad myfyrwyr. Er enghraifft, trwy gynnwys myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr wrth wella'r profiad a thynnu sylw at yr effaith y gallant ei chael.

## Adfyfyriol

Ymarferydd adfyfyriol sy'n adolygu, gwerthuso a gwella ei ymarfer addysgu yn rheolaidd er budd eu myfyrwyr, eu sefydliad a nhw eu hunain.

## Ymgysylltu

Gweithio gyda phobl fentrus, entrepreneuriaid, arloeswyr, sefydliadau a rhanddeiliaid eraill yn y profiad dysgu.

## Galluogi

Galluogi myfyrwyr i gysylltu eu dysgu â'u pwnc, a dyheadau personol a phroffesiynol.

## Perthnasedd

Cynnal perthnasedd y ddarpariaeth, gallu cysylltu â thueddiadau ac anghenion cyfredol.

### O edrych ar y diffiniadau ar y chwith, a oes termau, geiriau allweddol neu ymadroddion yr ydych wedi dod ar eu traws o'r blaen?

Rydym ni wedi dewis rhai i'ch cael chi i feddwl.

» **Amgylcheddau dysgu**
» **Addysgeg**
» **Datblygiad personol**
» **Gwella profiad myfyrwyr**
» **Rhanddeiliaid**
» **Profiad dysgu**
» **Dyheadau**

Trwy ddadansoddi'r iaith a ddefnyddir i ddisgrifio priodoleddau addysgwr menter, gobeithiwn ei fod yn dangos ei fod yn cyd-fynd â llawer o egwyddorion addysgu a dysgu o ansawdd da. Er bod cyd-destun yn bwysig, wrth ddileu iaith sy'n ymwneud â menter ac entrepreneuriaeth, gobeithiwn fod wedi dangos bod y rhinweddau hyn yn gyraeddadwy ac yn ôl pob tebyg eisoes o fewn eich pecyn cymorth proffesiynol.

Felly, gadewch inni adael yr adran hon gyda chwestiwn i chi, a ydych chi'n cyflawni'r priodoleddau hyn? Ac felly, a ydych chi eisoes yn addysgwr menter?



# Nodau a gweledigaeth ar gyfer Addysg Fenter ac Entrepreneuriaeth

**Wrth feddwl 'felly beth', 'pam ydw i'n gwneud hyn', gall fod yn ddefnyddiol canolbwyntio ar y nodau a'r weledigaeth sy'n llywio'r datblygiad personol rydych chi'n ei wneud trwy ddysgu mwy am addysg fenter ac entrepreneuriaeth (sy'n rhywbeth rydym ni'n gwybod sydd digwydd os ydych chi'n darllen hwn!).**


Nid yw amlygu'r nodau a'r weledigaeth yn unig yn gwarantu eu llwyddiant yn eich sefydliad neu fudiad, er ei fod yn rhoi arweiniad ynghylch nodi pam rydych yn mynd i fuddsoddi amser ynddo, a hefyd nodau a thargedau priodol i'w dewis. Mae'n werth nodi nad yw'r rhain yn aml yn amcanion pwnc-benodol, ac felly yn seiliedig ar y ddealltwriaeth y dylai addysg fenter ac entrepreneuriaeth greu cyfleoedd i bob myfyriwr, tra bod angen eu cysoni â'r pwnc astudio. Gall effaith hyn gynnwys dyheadau gyrfa uwch, mwy o wytnwch, y gallu i addasu a'r gallu i ddod o hyd i gyfleoedd newydd, ymgysylltu â nhw a'u cwblhau.

Yn ôl yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd (2018), dangoswyd bod Addysg Fenter ac Entrepreneuriaeth:

- **yn gynhwysol ac yn cefnogi cyfranogiad ehangach**
- **yn cael dylanwad cadarnhaol ar greadigrwydd, hyblygrwydd a'r broses arloesi myfyrwyr**
- **yn cael effaith gadarnhaol ar newid ymddygiad a dinasyddiaeth weithredol**
- **yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgu a graddau**
- **gwella ymgysylltiad rhanddeiliaid yn sylweddol**
- **egluro cyfleoedd gyrfa a gwella cyflogadwyedd**
- **cael effaith gadarnhaol ar swyddi a enillwyd o fewn cyflogaeth**
- **cynyddu cyfraddau cychwyn busnesau yn sylweddol.**

(QAA, 2018)






Ffigur 2: Y cwricwlaidd, cyd-gwricwlaidd ac allgyrsiol piblinell ddysgu (QAA, 2018 tudalen 22)

# PAM: CYFLEOEDD AC EFFAITH

## I fyfyrwyr

Gall dysgu am fentro a chael profiad o fentro pan rydych yn y brifysgol arwain at sawl budd. Mae'n rhoi gwahanol safbwyntiau i fyfyrwyr ynglŷn â'u dewisiadau gyrfa ac yn y pen draw, yr hyder i sefydlu eu busnes neu fenter gymdeithasol eu hunain. Bydd cymwyseddau menter yn ddefnyddiol i'r rhai sydd mewn cyflogaeth, neu'r rhai sy'n mynd yn hunangyflogedig ac yn gweithio ar eu liwt eu hunain neu ar sail ymgynghoriaeth. Gall helpu i ddatblygu hyder o ran gallu cyflawni, dull cwestiynu creadigol a pharodrwydd i fentro, gan alluogi unigolion i reoli ansicrwydd yn y gweithle a phatrymau gweithio hyblyg a gyrfaoedd. Mae cymwyseddau mentrus, fel gwaith tîm a'r gallu i ddangos menter a meddwl gwreiddiol, ochr yn ochr â hunanddisgyblaeth wrth ddechrau tasgau a'u cwblhau i derfyn amser, yn nodweddion hanfodol sydd wedi'u nodi gan gyflogwyr fel blaenoriaethau. Mae'r potensial ar gyfer llwybrau gyrfa portffolio hefyd yn awgrymu y bydd y profiadau dysgu hyn yn cefnogi anghenion ein myfyrwyr.

Mae Addysg Entrepreneuriaeth yn cymryd y naid nesaf, ac yn adeiladu ar y rhain, gan gyflwyno a datblygu cymwyseddau busnes sy'n galluogi'r myfyriwr i fod yn berson busnes craffach.

## Ar gyfer y Brifysgol

Gall Addysg Fenter gael effaith gadarnhaol ar; Tablau Cynghrair, Deilliannau Graddedigion, Complete University Guide, The Guardian, The Times, Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS), Quacquarelli Symonds (QS), Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF), Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), Concordat Cyfnewid Gwybodaeth (KEC)

**Enw da - Prifysgol Entrepreneuraidd y Flwyddyn**

***the-awards.co.uk/2023/en/page/home-awards***

## I'r staff

Annog ymreolaeth, rhyddid meddwl a grymuso o ran y cwricwlwm, addysgu, dysgu ac ymchwil: Mae'r cwricwlwm yn cael ei lunio gan y byd o'n cwmpas, a'r byd y bydd ein myfyrwyr yn byw ynddo. Mae'n cydnabod y sgiliau a'r doniau sydd eu hangen nawr, ac yn y dyfodol, lle caiff arloesedd personol ac entrepreneuriaeth eu gwerthfawrogi.

**Mae'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, y cyfeirir ato'n gyffredin fel y REF, yn ceisio:**

> *"sicrhau parhad ymchwil o safon fyd-eang, sy'n ddeinamig ac yn ymatebol ar draws y sbectrwm academaidd llawn o fewn addysg uwch yn y Deyrnas Unedig..."*

O fewn y Fframwaith, mae cyflwyniadau'n destun adolygiad arbenigol sy'n canolbwyntio ar ansawdd yr allbynnau, yr effaith y tu hwnt i'r byd academaidd a'r amgylchedd sy'n cefnogi'r ymchwil. Ar gyfer menter ac entrepreneuriaeth, nid oes 'uned asesu', felly mae cyhoeddiadau yn aml yn dod o fewn yr uned asesu sydd â'r cysylltiad agosaf â'r pwnc disgyblaethol sy'n cael ei astudio. Fodd bynnag, yn REF 2021, cyflwynwyd darn o waith o'r enw 'Practice into Policy and Policy into Practice: transforming entrepreneurship education through competency development' o dan yr uned asesu Addysg.

***results2021.ref.ac.uk/impact/cac3fe68-805e-40ac-9ba9-7416cf86ac44?page=1%20***

Fel y gobeithiwn ei ddangos, ac fel y dangosir gan y cyflwyniad Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil uchod, mae menter ac entrepreneuriaeth yn rhan o ystod amrywiol o fodiwlau a phrojectau ymchwil ar draws y disgyblaethau. Mae'r rheswm dros amlygu'r amrywiaeth hwn yn deillio o'r camsyniadau mynych sy'n berthnasol yn ein profiadau ynghylch natur, perthnasedd a chymhwysedd o fewn academydd neu ymchwil.

## Ar gyfer y Gymdeithas a'r Economi

Canfyddiadau o'r Arolwg Addysg a Sgiliau (CBI/NUS, 2011):

**Disgrifiodd 70% o gyflogwyr yr angen i fyfyrwyr prifysgol wneud mwy i baratoi ar gyfer amgylchedd y gweithle yn y dyfodol.**

**Dywedodd 82% mai sgiliau cyflogadwyedd oedd yr ystyriaeth bwysicaf ar gyfer recriwtio graddedigion.**

**Nid oedd 19% o gyflogwyr yn fodlon â sgiliau meddwl creadigol a datrys problemau graddedigion.**

**20% ddim yn fodlon y byddai sgiliau gwaith tîm yn bodloni disgwyliadau.**

Mae'r ddwy enghraifft hyn o ddiffygion sgiliau tybiedig yn feysydd y gellir eu datblygu trwy weithgareddau menter ac entrepreneuriaeth.

I dynnu'r adran hon at ei gilydd, mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod menter ac entrepreneuriaeth yn gofyn am ystyried dull ac addysgeg i sicrhau bod gweithgareddau yn gwneud y mwyaf o ryngweithio myfyrwyr ac yn annog datrys problemau a meddwl yn greadigol.



## Enghreifftiau o brofiadau dysgu dilys

Mae dwy enghraifft o astudiaeth achos a ddarparwyd gan yr awduron i'w gweld yn adran 6.

- digwyddiadau gyda busnesau lleol neu randdeiliaid perthnasol.
- gweithgareddau sy'n ymateb i broblemau neu faterion gwirioneddol a amlygwyd gan bartneriaethau cymunedol lleol.
- lleoliadau gwaith ac interniaethau.
- cystadlaethau neu gyfleoedd cyflwyno i gyfrannu at brojectau sefydliadol.
- defnyddio modelau rôl i ysbrydoli ac ysgogi myfyrwyr, gallai hyn fod trwy rannu straeon gyrfa
- dulliau asesu dilys sy'n caniatáu ar gyfer datblygu sgiliau ochr yn ochr â dangos gwybodaeth ddamcaniaethol o'r pwnc a astudir.
- digwyddiadau cydweithredol gyda'r gweithwyr proffesiynol gyrfaoedd, cyflogadwyedd neu fenter berthnasol yn eich sefydliad.

# SUT: ADNODDAU A CHEFNOGAETH

## Entrecomp

**Mae Entrecomp yn fframwaith sy'n diffinio ac yn mapio 15 o sgiliau mentergarwch ac entrepreneuraidd y gall unigolion geisio eu datblygu.**

Cefnogir y sgiliau hyn gan ddisgrifiadau o'r ffyrdd y gall unigolion ddangos mwy o gymhwysedd ym mhob sgil. Mae Entrecomp yn ddefnyddiol wrth amlygu pa sgiliau a phriodoleddau sy'n arbennig o berthnasol mewn modiwl neu aseiniad, gan roi cyfle i fapio'r rhain ar draws rhaglen radd gyfan.

Prif ddiben Entrecomp yw darparu fframwaith cyfeirio i gefnogi dealltwriaeth o entrepreneuriaeth a chynhwysiant yn eich gwaith. Mae sgiliau entrepreneuraidd wedi'u nodi fel cymhwysedd allweddol o fewn dysgu gydol oes.

Fe'i cynlluniwyd i gefnogi ac ysbrydoli camau gweithredu i wella gallu entrepreneuraidd dinasyddion a sefydliadau Ewropeaidd ac fe'i lansiwyd yn 2016 fel rhan o'r Agenda Sgiliau Newydd ar gyfer Ewrop. Mae EntreComp yn creu dealltwriaeth gyffredin o'r wybodaeth, y sgiliau a'r agweddau sy'n rhan o'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn entrepreneuraidd – darganfod a gweithredu ar gyfleoedd a syniadau, a'u trawsnewid yn werth cymdeithasol, diwylliannol neu ariannol i eraill.



### Entrepreneuriaeth fel cymhwysedd


Caiff entrepreneuriaeth fel cymhwysedd ei diffinio fel y gallu i weithredu ar gyfleoedd a syniadau i greu gwerth i eraill. Gall y gwerth a grëir fod yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol neu'n ariannol. Mae EntreComp yn cydnabod y cyfle i fod yn entrepreneuraidd mewn unrhyw sefyllfa: o gwricwlwm ysgol i arloesi yn y gweithle, o fentrau cymunedol i ddysgu cymhwysol yn y brifysgol.

Yn fframwaith EntreComp, mae cymhwysedd entrepreneuriaeth yn allu unigol ac ar y cyd. Mae entrepreneuriaeth yn gymhwysedd am oes. Mae bod yn greadigol neu feddwl am sut i wneud pethau mewn ffyrdd newydd yr un mor berthnasol i ddatblygu eich gyrfa neu feddwl am syniadau busnes newydd. Mae bod yn flaengar, ysgogi eraill a'u cael i dderbyn eich syniad yn sgiliau defnyddiol wrth godi arian ar gyfer tîm chwaraeon lleol, neu sefydlu menter gymdeithasol newydd. Mae deall sut i roi cynllun ar waith a defnyddio cyllid yn ddoeth yn berthnasol i'ch bywyd eich hun ac ar gyfer cynllunio busnes yn ehangach. Mae pob maes yn cynnwys 5 cymhwysedd, a gyda'i gilydd mae'r rhain yn ffurfio'r 15 cymhwysedd y mae unigolion yn eu defnyddio i ddarganfod a gweithredu ar gyfleoedd a syniadau.

### Hanfodion EntreComp

Mae EntreComp yn nodi'r cymwyseddau sy'n gwneud rhywun yn entrepreneuraidd. Gellir defnyddio'r rhain wedyn i gefnogi dysgu entrepreneuraidd mewn gwahanol leoliadau – gall hyn gynnwys cymdeithas sifil, cwmnïau, addysg, gwaith ieuenctid, cymunedau, busnesau newydd ac ymhlith unigolion.

Mae fframwaith EntreComp yn cynnig trosolwg o'r cymwyseddau gwahanol ond sydd hefyd yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae'r cymwyseddau hyn wedi'u cynllunio i'ch helpu i feddwl am y sgiliau a'r agweddau entrepreneuraidd y mae eich gwaith yn eu cynnwys. Gellir eu defnyddio fel canllaw wrth ddylunio gweithgaredd newydd a/neu fodel i chi ei ddefnyddio neu eu haddasu ar gyfer dysgu ac asesu. Ar y lefel symlaf, mae EntreComp yn cynnwys 3 maes cymhwysedd: Syniadau a Chyfleoedd, Adnoddau, a Gweithredu. Mae pob maes yn cynnwys 5 cymhwysedd, a gyda'i gilydd y rheini yw'r 15 cymhwysedd y mae unigolion yn eu defnyddio i ddarganfod a gweithredu ar gyfleoedd a syniadau.




Gallwch lawrlwytho Entrecomp yma:

***entrecomp.thinqi.com/repository/resource/9b54766e-3c61-4668-b2c0-3fae88031891/overview***

# Pecyn CGC


**Pecyn Cymorth Gwella'r Cwricwlwm a ddarperir gan EEUK**

Mae'r pecyn ar gael yma – ***www.etctoolkit.org.uk***

Gall dewis y dulliau addysgu cywir wella profiad myfyrwyr. Mae'r wefan hon wedi'i datblygu gan Brifysgol De Cymru i'ch cefnogi wrth i chi geisio defnyddio dulliau newydd i feithrin sgiliau a hyder yn eich dysgwyr wrth iddynt weithio i ymestyn eu gwybodaeth bynciol.

Gan adeiladu ar ddull Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y DU o feincnodi pynciau, bydd y wefan hon yn eich arwain trwy eich Disgyblaeth Pwnc i nodi'r sgiliau mentro y gellir eu datblygu yn y dosbarth. Yna cewch eich arwain at amrywiaeth o dechnegau "profedig" sy'n cefnogi datblygiad y sgiliau menter hyn. Cyflwynir y detholiad hwn o Ganllawiau "Sut-i" ETC mewn fformat safonol a fydd yn eich cefnogi i ymgorffori'r technegau hyn yn eich addysgu.

Ategir y canllawiau hyn hefyd gan enghreifftiau o achosion go iawn yn seiliedig ar bynciau. Mae'r enghreifftiau hyn o achosion yn dangos sut mae academyddion yn eich maes pwnc yn gweithio gyda'u myfyrwyr a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar eu dysgwyr.






## Asesu eich modiwl presennol

Cynlluniwyd yr offeryn asesu cwrs Potensial Entrepreneuraidd a Chymwyseddau Arloesedd (EPIC) i helpu addysgwyr i fesur effeithiolrwydd eu cyrsiau entrepreneuriaeth. Gellir ei ddefnyddio i asesu datblygiad sgiliau a chymhwysedd cyfranogwyr mewn gwahanol gyrsiau entrepreneuriaeth, modiwlau, ysgolion haf, cyrsiau dwys neu raglenni hyfforddi.

***www.heinnovate.eu/en/other-initiatives***

# Advance HE

Mae Advance HE yn elusen sy'n cael ei harwain gan aelodau ac sy'n eiddo i'r sector ac sy'n gweithio gyda sefydliadau ac addysg uwch ar draws y byd i wella addysg uwch i staff, myfyrwyr a chymdeithas – gyda'r diben o 'helpu addysg uwch i fod y gorau y gall fod'. Mae ei gwmpas yn cynnwys cefnogi arweinyddiaeth, gwella addysgu a dysgu a chymorth i ddarparu profiadau sy'n paratoi dysgwyr i lwyddo fel 'cyfranwyr adeiladol i fyd y dyfodol'.

***www.advance-he.ac.uk/about-us***

Mae awdur Advance HE y Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF, 2023) yn defnyddio tri maes allweddol, meysydd gweithgaredd, gwybodaeth graidd a gwerthoedd proffesiynol, ynghyd â datganiadau i ddangos tystiolaeth o ymarfer trwy bedwar disgrifydd. Yn bwysig ddigon, mae'r Fframwaith Safonau Proffesiynol yn defnyddio'r meysydd hyn i adolygu a gwella addysgu, yn rhoi pwyslais ar ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ac yn bwysig iawn, yn strwythur i amlygu dysgu o ansawdd uchel sy'n arwain at gydnabyddiaeth fel cymrodoriaeth. I gael gwybod mwy, ewch i ***www.advance-he.ac.uk/fellowship***

Diben y papur hwn yw addysg fenter; felly, mae'n berthnasol nodi y gellir defnyddio gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag addysg fenter i ddangos tystiolaeth o feysydd a datganiad gwerth yn y Fframwaith Safonau Proffesiynol.

**Mae'n arbennig o berthnasol yn y dimensiynau canlynol:**

### Gweithgaredd

**A1** – dyfeisio a chynllunio gweithgareddau dysgu a/neu raglenni astudiaeth

**A2** – addysgu a/neu gefnogi dysgu trwy ddulliau ac amgylcheddau priodol

**A4** – cefnogi ac arwain dysgwyr

### Gwybodaeth

**K2** – ymagweddau at addysgu a/neu gefnogi dysgu, sy'n briodol ar gyfer pynciau a lefel astudio.

**K3** – gwerthusiad beirniadol fel elfen sylfaenol ar gyfer arfer effeithiol

### Gwerthoedd

**V1** – Parchu myfyrwyr unigol a grwpiau amrywiol o fyfyrwyr

**V2** – hyrwyddo cyfranogiad mewn dysgu a chyfle cyfartal i bawb gyrraedd eu potensial

**V4** – ymateb i'r cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo, gan gydnabod y goblygiadau ar ymarfer.

**Advance HE, 2023, t.5**

# Datganiadau Meincnodi Cwricwlwm

Ar gyfer pob disgyblaeth, mae'r datganiadau meincnod pwnc yn bwynt cyfeirio canolog sy'n nodi'r safonau disgwyliedig ar gyfer graddedigion waeth beth fo'r sefydliad, ac fe'u cyhoeddir gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yw'r sefydliad sy'n gyfrifol am osod safonau ac ansawdd academaidd addysg uwch yn y DU (Rae, Matlay, McGowan & Penaluna).

Pwrpas yr adran hon yw tynnu sylw at berthnasedd i addysg fenter. Gyda'r broses ail-ddilysu, caiff datganiadau eu diweddaru a'u cyhoeddi. Mae datganiadau a gyhoeddwyd o fis Mawrth 2022 yn ymgorffori ystyriaeth o gysyniadau ehangach, **ac un ohonynt yw menter ac entrepreneuriaeth.** Mae ystyriaethau eraill yn cynnwys amrywiaeth a chynhwysiant, gofynion myfyrwyr anabl ac addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy. Ar hyn o bryd, mae 41 o ddatganiadau diwygiedig wedi'u cyhoeddi.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am ddatganiadau meincnodi'r cwricwlwm, gan gynnwys pa bynciau sydd wedi'u diweddaru, drwy'r ddolen hon: ***www.qaa.ac.uk/quality-code/subject-benchmark-statements***



# BLE NESAF:

*"Mae'r sector Addysg Uwch yn y DU yn ffodus bod nifer o sefydliadau wedi'u sefydlu i gefnogi addysg fenter o ran y gwaith ymarferol ac o safbwynt strategol. Yn bwysicach fyth, maent yn bodoli i gefnogi'r addysgwr menter unigol a'r ystod eang o rolau a chyfrifoldebau sydd ganddynt. Os nad ydych eisoes yn ymwneud â'r sefydliadau hyn, yna ystyriwch aelodaeth neu'r adnoddau rhad ac am ddim y maent yn eu cynnig i'ch cefnogi yn yr hyn sy'n aml yn rôl heriol ac esblygol"*

***Dr Emily Beaumont***

*Athro Cyswllt Menter ac Entrepreneuriaeth,*
*Prifysgol Swydd Gaerloyw*

*Cyn-Arlywydd Enterprise Educators UK*
*Is-lywydd Addysg a Dysgu Ymarferydd, ISBE*



# Enterprise Educators UK

Dysgwch fwy yma - ***www.enterprise.ac.uk***

Fel cyflwyniad, disgrifir EEUK i alluogi:

> *"...rhagoriaeth mewn addysg fenter ac entrepreneuriaeth, gan gysylltu a chefnogi addysgwyr menter ac entrepreneuriaeth ledled y DU a thramor."*

Fel rhwydwaith annibynnol sy'n seiliedig ar aelodaeth, mae EEUK yn esblygiad o'r rhwydwaith cenedlaethol blaenorol, UK Science Enterprise Centres (UKSEC), ac yn fenter a ariennir yn gyhoeddus (Beresford & Beresford, 2010).

Ar gyfer aelod-sefydliadau EEUK, mae'r holl staff yn aelodau cyswllt a gallant elwa o'r digwyddiadau a'r cyfleoedd a gynigir, gan gynnwys y Gynhadledd Addysgwyr Menter Ryngwladol flynyddol.

I ddarganfod a yw eich sefydliad yn un o'r 114 o sefydliadau sy'n aelodau, dilynwch y ddolen hon: ***www.enterprise.ac.uk/connect/#members***

Enterprise Educators UK

---

# Cymrodoriaeth EEUK

**Cyn trafod cymrodoriaeth EEUK, fel awduron, roeddem yn meddwl y byddai'n berthnasol cydnabod bod hyn yn rhywbeth yr ydym ni'n dau yn gweithio arno fel gweithwyr proffesiynol.**

Gall y term Cymrodoriaeth fod yn un cyfarwydd, gan ei fod yn cael ei ddefnyddio ar draws Addysg Uwch i gydnabod cyfraniad gweithwyr proffesiynol at addysgu, ymchwil a mwy. Yn wahanol i gael tystysgrif addysgu neu radd, nid oes gan ddod yn addysgwr menter lwybr mor glir, gan arwain at hunan-adnabod trwy'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd gan rywun fel gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn y maes hwn. Mae hyn felly'n amlygu pwysigrwydd cymrodoriaeth EEUK o ran rhoi cydnabyddiaeth i unigolion sy'n ei chyflawni, gan gydnabod cyfraniadau pob rôl sy'n cefnogi datblygiad menter ac entrepreneuriaeth i eraill. Dangosir hyn gan y tri 'llwybr' hyd at gwblhau sydd ar gael, academaidd, ymarferwr neu ddylanwadwr. Trwy bortffolio ysgrifenedig ar gyfer y llwybr a ddewiswyd, sy'n cynnwys pedair rhan, asesir ceisiadau, gyda llwyddiant yn arwain at dderbyn dyfarniad Cymrodoriaeth EEUK (yr un yw'r teitl ni waeth pa lwybr a ddewiswyd).

Mae'r tri llwybr hyn yn cydnabod y gall rôl fod yn seiliedig ar y canlynol:

» **Y traddodiadau o addysgu eich disgyblaeth neu faes pwnc (fel academydd)**

» **Profiad ac ymarfer o weithio y tu allan i'r cwricwla (fel ymarferwr) i gyflawni canlyniadau entrepreneuraidd, neu**

» **Gweithio ar draws eich sefydliad a/neu o fewn eich cymuned (busnes/lleol) ehangach (fel dylanwadwr).**

EEUK website

Ar adeg ei chyhoeddi, y gymrodoriaeth hon yw'r unig gydnabyddiaeth ar draws y sector o hyd i addysgwyr menter.

Cofrestrwch i'r rhestr bostio trwy'r ddolen hon: ***enterprise.us3.list-manage.com/subscribe?u=19f8551d82e6fe569a8a07caa&id=6bf39337d4***

Darganfyddwch a oes unrhyw un yn eich sefydliad eisoes wedi cael y wobr hon yma: ***www.enterprise.ac.uk/fellows/eeuk-fellows***

# Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Entrepreneuriaeth mewn Addysg (NCEE)

Mae'r NCEE yn sefydliad rhyngwladol sy'n canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu prifysgolion entrepreneuraidd. Archwiliodd cyhoeddiad a ysgrifennwyd gan James Ransom (2020) y dull sefydliadol o wreiddio menter ac entrepreneuriaeth.



### Polisi sefydliadol

Oes gan eich sefydliad y canlynol...

- **polisi menter neu entrepreneuriaeth sefydliadol penodol**
- **olrhain unigolion ar ôl graddio**
- **hyfforddiant staff mewn menter**
- **cronfeydd staff ar gyfer DPP**
- **bod cronfeydd datblygu cwricwla**
- **cefnogaeth staff ar gyfer masnacheiddio eiddo deallusol**
- **cymhellion i ddenu / annog addysgwyr i fyd mentergarwch**
- **hyrwyddwyr menter**

Os ydych chi'n dal i ystyried pa mor berthnasol yw hyn oll i chi, yna ystyriwch y canfyddiad mai unigolion o fewn adrannau academaidd yw'r galluogwr mwyaf wrth gyflwyno a gwreiddio gweithgaredd menter. Yn y bôn, gallwch gyfrannu at nodau addysg fenter yn syml trwy alluogi timau menter i weithio o fewn y cwricwlwm ac ymgysylltu â myfyrwyr.

# Grŵp Effaith Ymchwil

Cynnwys wedi'i ddyfynnu o ***impactresearch.group***

**Mae'r Grŵp Effaith Ymchwil yn grŵp traws-sefydliadol o ymchwilwyr sydd â diddordeb archwilio effeithiau addysg fenter ac entrepreneuraidd mewn ystod eang o gyd-destunau.**

Tyfodd y grŵp o ddyfarniad y Gronfa Project Ymchwil ac Addysg Fenter (EERPF) gan Enterprise Educators UK (EEUK) yn 2019. Galluogodd y grant gwreiddiol y tîm i gynhyrchu adolygiad blaengar o offer hunanasesu personol ar gyfer cymwyseddau addysg fenter ac entrepreneuraidd, (ar gael drwy'r Pecyn Cymorth ETC) a dadansoddiad o ganlyniadau polisi yn y DU. Ers cwblhau'r project yn 2020 mae'r grŵp wedi tyfu ac mae bellach yn cynnwys tua 20 o ymchwilwyr ym mhedwar ban byd, pob un ohonynt â diddordeb mewn archwilio effeithiau addysg fenter ac entrepreneuraidd.

**Ymhlith y cyhoeddiadau a amlygwyd gan y grŵp hwn mae:**

Bozward D., Rogers-Draycott, M., Smith, K., Mave, M., Curtis, V., Aluthgama-Baduge, C., Moon, R., and Adams, N. (2022) Exploring the Outcomes of Enterprise and Entrepreneurship Education in UK HEI's: An Excellence Framework Perspective. Industry and Higher Education.

Rogers-Draycott M, Bozward D, Smith K, Mave M, Curtis V, Maragh D. (2024) Does Entrepreneurship Education Deliver? A Review of Entrepreneurship Education University Programmes in the UK. Education Sciences. 14(4):361.

Dysgwch fwy yma: ***impactresearch.group***

# Y Sefydliad i Fusnesau Bach ac Entrepreneuriaeth

Dysgwch fwy yma – ***www.isbe.org.uk***

**Mae'r Sefydliad Busnesau Bach ac Entrepreneuriaeth (ISBE) yn rhwydwaith ar gyfer pobl a sefydliadau sy'n ymwneud ag ymchwil, polisi, ymarfer, addysg, cymorth a chyngor i fusnesau bach ac entrepreneuriaeth.**

**Mae rhai o weithgareddau allweddol yr ISBE yn cynnwys:**

» **Cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, er enghraifft, cynhadledd flynyddol.**
» **Grwpiau diddordeb arbennig pwnc-benodol ****
» **Cymunedau diddordebau**
» **The International Journal of Entrepreneurial Behavior & Research (IJEBR)**

Mae aelodau sefydliadol yn caniatáu i'r holl staff gael mynediad at ISBE. I ddarganfod a yw eich sefydliad yn un o'r sefydliadau sy'n aelodau, dilynwch y ddolen hon: ***www.isbe.org.uk/isbe-organisational-members/***

Cofrestrwch i'r rhestr bostio trwy'r ddolen hon: ***isbe.us10.list-manage.com/subscribe?u=e54032e7399ddffe61a6a5f2f&id=f6c62eeb28***

** Mae grwpiau diddordeb arbennig sy'n benodol berthnasol i gynnwys yr adroddiad hwn yn cynnwys:

» **Ymarfer ac Effaith**
» **Ymchwil mewn Addysg Fenter**



# **RHANNU ARFER GORAU:** ASTUDIAETHAU ACHOS AC ENGHREIFFTIAU

## Projectau Menter ac Arloesi ar gyfer Myfyrwyr Astudiaethau Plentyndod ac Ieuenctid blwyddyn 1

(Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor)

**Trwy ymgysylltu â staff academaidd yn yr Ysgol Addysg, amlygwyd y gallai myfyrwyr elwa o ddatblygu sgiliau trwy weithgareddau nad ydynt yn arwain at gredyd drwy gydol y rhaglen radd.**

Ystyriwyd bod carfan blwyddyn 1 (carfan o tua 40) yn amser pwysig i fyfyrwyr, yr oedd llawer ohonynt yn pontio o addysg bellach i addysg uwch, yn llywio'r disgwyliadau arnynt fel myfyriwr. Yn ogystal, roedd cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ar gyfer cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth eisoes wedi'u sefydlu yn yr ail a'r drydedd flwyddyn.

Rhedodd y project hwn am y tro cyntaf yn ail semester y flwyddyn academaidd 22/23. Cylch gorchwyl y project oedd annog staff i agor projectau i fyfyrwyr blwyddyn 1af er mwyn eu galluogi i ddatblygu sgiliau trwy brofiad gwerthfawr mewn amgylchedd gweithle. Rhoddwyd dewis o bedwar gweithgaredd i fyfyrwyr a chwblhawyd cais byr i amlygu eu hoffterau. Roedd y pedwar gweithgaredd yn ymgorffori'r rhai a oedd wedi'u diffinio'n dda o ran pwyslais, i'r rhai a oedd yn caniatáu i fyfyrwyr arwain pwyslais, cyfrwng a chyflwyniad y project yn llawn. Trwy'r projectau hyn, enillodd myfyrwyr sgiliau Entrecomp gwerthfawr (creadigrwydd, gweledigaeth, gwerthfawrogi syniadau, cymhelliant a dyfalbarhad, mentro, cynllunio a rheoli, gweithio gydag eraill, dysgu trwy brofiad).



### Roedd yr opsiynau a roddwyd yn cynnwys:

- **Creu dull rheolaidd o rannu gwybodaeth rhwng pobl yn y garfan, e.e. cylchlythyr.**
- **Cynllunio a chwblhau digwyddiad i gefnogi asiantaeth leol sy'n canolbwyntio ar y plentyn neu sefydliad elusennol**
- **Cefnogaeth i gynllunio a gweinyddu cynhadledd sy'n canolbwyntio ar y plentyn**
- **Project arloesol o'ch dyluniad eich hun sy'n arwain at gynnyrch neu newid sy'n cefnogi plant a phobl ifanc**

Ar gyfer y flwyddyn academaidd 23/24, parhaodd y cynllun gyda rhai diwygiadau yn dilyn adborth gan fyfyrwyr a staff, a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar sicrhau bod amseriadau cyflwyno'r projectau yn ddigon cynnar i fyfyrwyr ymgysylltu. Roedd y projectau a oedd ar gael i fyfyrwyr eleni yn cynnwys ymgysylltu â'r eco-system ehangach, er enghraifft, cwmni ffilm lleol a pharc Gwyddoniaeth sy'n eiddo i'r Brifysgol.

Er nad yw'n orfodol, anogir myfyrwyr yn gryf i gymryd rhan yn y fenter hon, gyda'r bwriad iddo gyd-fynd â'r cyflwyniad a aseswyd. Mae myfyrwyr a gymerodd ran yn y project wedi parhau i ymgysylltu â gweithgareddau'r ysgol ac wedi siarad â myfyrwyr blwyddyn 1 presennol i rannu eu profiadau. Mae staff wedi nodi, trwy fyfyrio, fantais y fenter o ran hyder myfyrwyr, eu hymwneud â'u hastudiaethau a'u gallu i feddwl yn greadigol. Mae manteision i staff yn cynnwys datblygu syniadau, treialu syniadau cyn buddsoddi mewn projectau ar raddfa lawn, a meddwl am eu sgiliau mentrus eu hunain. Wrth i'r ail flwyddyn ddod i ben, cynhelir proses adborth fwy ffurfiol i ystyried iteriad nesaf y project wrth iddo fynd i mewn i'r drydedd flwyddyn.



# Peirianneg i bobl Hackathon
# Modiwl menter ac arloesi ar gyfer peirianwyr blwyddyn 1

(Ysgol Peirianneg Awyrofod, Sifil, Drydanol a Mecanyddol, Prifysgol Abertawe)

Mae peirianneg yn fwy na deall dylunio technegol, yn aml y cyd-destun cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd sy'n sail i atebion peirianneg sy'n pennu llwyddiant neu fethiant. Nid yw hyn erioed wedi bod yn fwy perthnasol gan fod y byd ar hyn o bryd yn cynllunio trawsnewidiad radical i economi carbon isel gan wynebu risgiau cynyddol oherwydd argyfwng hinsawdd a fydd yn dod â newid digynsail i'r byd yn ei sgil. Bydd peirianwyr ar flaen y gad yn hyn o beth, ac mae angen eu harfogi i fynd i'r afael â phroblemau penagored, distrwythur a chymhleth ar y cyd ag eraill. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i archwilio'r materion hyn o fewn eu dewis ddisgyblaeth gyda'r strwythur canlynol: Bob wythnos bydd un neu ddwy ddarlith 1 awr, yn cyflwyno meddwl peirianneg a materion cyfoes mewn dylunio peirianneg byd-eang. Bydd y rhan fwyaf o'r gweithgarwch wedyn yn digwydd mewn sesiynau gwaith grŵp (2 awr yr wythnos), lle bydd grwpiau o tua 6 myfyriwr yn gweithio mewn ffordd hwylus i nodi ac ymchwilio i her gymdeithasol (e.e. mynediad at ddŵr / ynni oddi ar y grid / trafnidiaeth gynaliadwy ) ac yna ystyried sut y gallai atebion dylunio Peirianneg helpu i ddatrys hyn.

## Amcanion y modiwl yw:

Gwerthfawrogi a blaenoriaethu dylunio ar gyfer y bobl a'r cyd-destun, er mwyn sicrhau priodoldeb a chynaliadwyedd eu syniadau. Deall a gwerthfawrogi eu cyfrifoldeb a goblygiadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penderfyniadau peirianyddol ar lefel leol a byd-eang. Deall pwysigrwydd gweithio ar draws diwylliannau a disgyblaethau wrth ddatblygu atebion sy'n goresgyn heriau byd-eang.

## Asesu:

**Gwaith Cwrs 1:** (10%) Tasgau adeiladu gwaith tîm - posau

**Gwaith Cwrs 2:** (10%) Aseiniadau datblygiad proffesiynol

**Gwaith Cwrs 3:** Bydd yr adroddiad ysgrifenedig terfynol yn cynnwys diffiniad y broblem a'r meddylfryd dylunio. Mae'r asesiad hwn hefyd yn cynnwys y cyflwyniad grŵp ac asesiad cymheiriaid o gyfraniad. (70%)

**Gwaith Cwrs 4:** Tasg myfyrio grŵp (10%)

## Deilliannau dysgu:

- Y gallu i ddewis a defnyddio llenyddiaeth dechnegol a ffynonellau eraill o wybodaeth i fynd i'r afael â phroblemau penodol.
- Dylunio datrysiadau ar gyfer problemau technegol penodol a chynorthwyo gyda dylunio systemau, cydrannau neu brosesau i ddiwallu anghenion busnes, cwsmeriaid neu ddefnyddwyr fel y bo'n briodol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried iechyd a diogelwch perthnasol, amrywiaeth, cynhwysiant, materion diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol, codau ymarfer a safonau diwydiant.
- Gwerthuso effaith amgylcheddol a chymdeithasol atebion i broblemau penodol.
- Gallu gweithio'n effeithiol, fel unigolyn a hefyd fel aelod o dîm.
- Cyfathrebu'n effeithiol â chynulleidfaoedd technegol ac annhechnegol.

# CASGLIAD

**Gadewch inni ddod yn ôl at y cwestiynau a ofynnwyd gennym yn syth yn ôl yn y cyflwyniad.**

## 1. Pam fod menter yn bwysig?

### Mewn ymateb i gwestiwn 1:

» Mae addysg fenter yn annog meddylfryd entrepreneuraidd, nad yw'n gyfyngedig i ddechrau busnes ond sy'n cwmpasu rhinweddau fel creadigrwydd, meddwl yn feirniadol, datrys problemau, a gallu i addasu. Mae'r sgiliau hyn yn werthfawr mewn gwahanol agweddau o fywyd ac unrhyw lwybr gyrfa.

» Mae addysg fenter yn arfogi unigolion â sgiliau sy'n berthnasol yn y farchnad swyddi fodern ac y mae modd eu haddasu i gyfleoedd gyrfa amrywiol.

» Mae addysg fenter yn meithrin arloesedd a chreadigrwydd, gan arwain at ddatblygu cynhyrchion, gwasanaethau ac atebion newydd. Mae'r arloesedd hwn o fudd nid yn unig i fusnesau ond i gymdeithas gyfan.

» Trwy addysg fenter, gall unigolion ddysgu sut i fynd i'r afael â materion cymdeithasol a chyfrannu at eu cymunedau.

» Mae'n rhoi ymdeimlad o rymuso a'r wybodaeth bod gennych y sgiliau i greu rhywbeth ystyrlon, boed yn fusnes, yn fenter gymdeithasol, neu'n broject arloesol.

I grynhoi, nid yw addysg fenter yn ymwneud â busnes yn unig; mae'n ymwneud ag arfogi unigolion â sgiliau bywyd hanfodol, meithrin arloesedd, a grymuso pobl i gael effaith gadarnhaol ar y byd, waeth beth fo'u dewis lwybr.



## 2. Sut gallaf ychwanegu gwerth at fy maes addysg ac ymchwil gan ddefnyddio'r wybodaeth newydd hon?

### Mewn ymateb i gwestiwn 2:

Mae hyn yn eich galluogi i weithio allan. Mae gwybodaeth yn yr adroddiad hwn yn fan cychwyn gwych, ond er mwyn cael yr effaith orau arnoch chi'ch hun, myfyrwyr, neu'r gymuned, mae angen cynllun gweithredu wedi'i bersonoli.

**Diolch am roi'ch amser i ddarllen yr adroddiad hwn.**

Gobeithiwn y bydd yr wybodaeth a gasglwyd gennym yn ddefnyddiol i chi.

# CYSYLLTIADAU & CHYFEIRIADAU

## Cysylltiadau

Enterprise Educators UK (EEUK). ***www.enterprise.ac.uk***

Entrecomp Framework. ***entrecomp.thinqi.com/repository/resource/9b54766e-3c61-4668-b2c0-3fae88031891/overview***

ETC Toolkit. ***www.enterprise.ac.uk/index.php/resources/etc-toolkit***

Institute for Small Business and Entrepreneurship (ISBE). ***www.isbe.org.uk***

National Centre for Entrepreneurship in Education (NCEE). ***ncee.org.uk***

Research Excellence Framework (REF). ***www.ref.ac.uk***

Research Impact Group. ***impactresearch.group***

THE Awards. ***www.the-awards.co.uk/2024/en/page/home***

## Cyfeiriadau


Advance HE (2023). Professional Standards Framework for teaching and supporting learning in higher education 2023. ***https://advance-he.ac.uk/knowledge-hub/professional-standards-framework-teaching-and-supporting-learning-higher-education-0***

Advance HE (2024). Essential Frameworks for Enhancing Student Success. Enterprise and Entrepreneurship Education. ***https://www.advance-he.ac.uk/knowledge-hub/framework-enterprise-and-entrepreneurship-education-0***

Beresford, R., & Beresford, K., (2010) The role of networks in supporting grassroots good practice in enterprise education. Research in Post-Compulsory Education, 15:3, 275-288, DOI: 10.1080/13596748.2010.503998

CBI/NUS (2011) Working towards your future: Making the most of your time in higher education. Available at: ***https://www.ucd.ie/t4cms/cdc_academics_cbi-nus-employability.pdf*** [Accessed 5 August 2024].

Confederation of British Industry (2011). Building for growth: business priorities for education and skills. Available at: ***https://help.open.ac.uk/students/_data/documents/careers/building-for-growth-cbi-education-and-skills-survey-2011.pdf*** (accessed 5 August 2024)

Kill, R. & O'Rourke, K. (eds) (2011) Inspiring Enterprise: Transforming Enterprise Education at Leeds Beckett University. Leeds: Leeds Beckett Press. Available at: ***https://eprints.leedsbeckett.ac.uk/id/eprint/2815/1/Inspiring_Enterprise_LoRes.pdf***

McCallum E., Weicht R., McMullan L., Price A.,(2018) EntreComp into Action: get inspired, make it happen (M. Bacigalupo & W. O'Keeffe Eds.) , EUR 29105 EN, Publications Office of the European Union, Luxembourg, , doi:10.2760/574864, JRC109128

Moreland, N. (2006) Entrepreneurship and higher education: an employability perspective. ESECT Employability Series 1. York: The Higher Education Academy.

QAA (2018). Enterprise and Entrepreneurship Education: Guidance for UK Higher Education Providers. https://www.qaa.ac.uk/the-quality-code/enterprise-and-entrepreneurship-education

QAA (2024). Subject Benchmark Statements. ***https://www.qaa.ac.uk/the-quality-code/subject-benchmark-statements***

Rae, D., Matlay, H., McGowan, P., & Penaluna, A. (2014). Freedom or Prescription: The Case for Curriculum Guidance in Enterprise and Entrepreneurship Education. Industry and Higher Education, 28(6), 387-398. ***https://doi.org/10.5367/ihe.2014.0227***

Sarmiento, T., Harte, V., Pickford, R. & Willoughby, L. (2007) Enterprise Skills for Undergrads– Never too early to start? Innovation in Teaching and Learning in Information and Computer Sciences. 6(2), 10–21. ***https://doi.org/10.11120/ital.2007.06020010***

SFEDI National Occupational Standards for Enterprise Educators (2016) ***http://campus.ioee.uk/national-enterprise-standards/***

Sinek, S. (2009). How great leaders inspire action. ***https://simonsinek.com/videos/ted-talks/***

University of Wales Trinity Saint David. (2021). Practice into Policy and Policy into Practice: transforming entrepreneurship education through competency development. ***https://results2021.ref.ac.uk/impact/cac3fe68-805e-40ac-9ba9-7416cf86ac44?page=1***

Whetten, D. A. (1989). What Constitutes a Theoretical Contribution?. The Academy of Management Review, 14(4), 490. ***https://doi.org/10.2307/258554***



# CYLCH AUR
## ADDYSG FENTER

# BETH, SUT A PHAM

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Swansea University Prifysgol Abertawe

Cyhoeddwyd Hydref 2024